# ADDYSG, CYMRU

# 2012 RHIF: 49

## Cynllun Hyfforddi Athrawon ar sail Cyflogaeth 2012 ("Cynllun 2012")

### Y Cefndir

1. Mae rheoliad 8 o Reoliadau Cymwysterau Athrawon Ysgol (Cymru) 2012[1] ("Rheoliadau 2012") yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru (drwy rinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006) sefydlu cynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth a fydd yn galluogi unigolion sy'n cael eu cyflogi, neu sydd wedi'u cyflogi mewn ysgol i ddod yn athrawon cymwysedig.

2. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau i roi cymorth ariannol o dan adrannau 14-17 o Ddeddf Addysg 2002 i hyrwyddo recriwtio neu gadw athrawon neu staff heblaw athrawon. O dan adran 70 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, caiff Gweinidogion Cymru roi cymorth ariannol i unrhyw un sy'n ymgymryd ag unrhyw weithgaredd y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried y bydd yn sicrhau, neu'n helpu i sicrhau, y cyflawnir unrhyw amcan y maent yn anelu at ei gyflawni wrth arfer unrhyw un o'u swyddogaethau. Mae'r pwerau i roi grantiau o dan Gynllun 2012 yn cael eu gwneud wrth arfer y pwerau hynny.

3. Mae'n bosibl y bydd Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi canllawiau ar wahân o dan reoliad 8(5) o Reoliadau 2012 a dylai'r rheini sy'n arfer unrhyw swyddogaeth o dan Gynllun 2012 roi ystyriaeth i'r canllawiau hynny.

### Crynodeb o'r Cynllun

4. Mae Cynllun 2012 yn nodi gofynion y Rhaglen Athrawon Graddedig ("RhAG"), y Rhaglen Hyfforddiant Ychwanegol i Raddedigion ("RhHYR") a'r Rhaglen Athrawon Cofrestredig ("RhAC") (gyda'i gilydd fe'u gelwir yn "y rhaglenni"), ac yn nodi sut y mae'r RhAG, y RhHYR a'r RhAC i'w gweithredu yng Nghymru. Mae'n nodi cwmpas y RhAG, y RhHYR a'r RhAC a manylion y gofynion cymhwysedd ar gyfer yr unigolion hynny sy'n dymuno dilyn llwybr i addysgu sy'n seiliedig ar gyflogaeth.

5. Ni fydd arian ar gael ar gyfer y RhAG na'r RhAC os nad yw Gweinidogion Cymru wedi cyhoeddi unrhyw dargedau derbyn ar gyfer y rhaglenni hynny yn unol â darpariaethau Cynllun 2012. Dim ond os yw Gweinidogion Cymru yn rhoi targedau derbyn iddynt yn unol â darpariaethau Cynllun 2012 y caiff darparwyr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon ("HCA") yng Nghymru weithredu'r RhAG neu'r RhAC.

6. Bydd Cynllun 2012 yn dod i rym ar gyfer rhaglenni'r RhAG neu'r RhAC lle mae'r cyfnod hyfforddi'n dechrau ar 1 Medi 2013 neu ar ôl hynny, ac ar gyfer rhaglenni'r RhHYR lle mae'r cyfnod hyfforddi'n dechrau ar 1 Mehefin 2013 neu ar ôl hynny.

---

[1] OS 2012/724 – Rheoliadau Cymwysterau Athrawon Ysgol (Cymru) 2012

7. Mae Cynllun 2012 yn disodli Cynllun Hyfforddi Athrawon ar Sail Cyflogaeth 2011 (2011 Rhif 32) ("Cynllun 2011"). Mae'r trefniadau trosiannol yn golygu y bydd darpariaethau Cynllun 2011 yn parhau i fod yn gymwys yn achos rhaglenni'r RhAG a'r RhAC a ddechreuodd cyn 1 Medi 2013.

**Dehongli**

8. Ac eithrio lle mae'r cyd-destun yn mynnu fel arall, at ddibenion y ddogfen hon:-

Ystyr "darparwr HCA achrededig" yw sefydliad sydd wedi'i achredu gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn ddarparwr cyrsiau neu raglenni HCA o dan reoliad 7 o Reoliadau 2012;

Ystyr "darparwr hyfforddiant HCA yn Lloegr" yw sefydliad sydd wedi'i achredu yn ddarparwr cyrsiau neu raglenni HCA yn Lloegr o dan reoliadau a wnaed mewn perthynas â Lloegr ac sydd o bryd i'w gilydd mewn grym o dan adran 132 o Ddeddf Addysg 2002[2];

Ystyr "sefydliad cymeradwy" yw corff a gontractiwyd neu a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru i drefnu a gweithredu'r RhHYR;

Ystyr "cyflogaeth" yw cyflogaeth o dan gontract cyflogaeth, neu dalu person i ddarparu gwasanaethau heb fod o dan gontract cyflogaeth, a dylid dehongli cyfeiriadau at fod yn gyflogedig yn unol â hynny;

Ystyr "darparwr HCA ar sail cyflogaeth" yw sefydliad sydd wedi'i achredu yn ddarparwr HCA, neu bartneriaeth weinyddol o sefydliadau o'r fath, y bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi targed derbyn iddynt ar gyfer unrhyw raglen o dan Cynllun 2012;

Ystyr "cynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth" a "Chynllun 2012" yw'r cynllun y cyfeirir ato yn rheoliad 8 o Reoliadau 2012;

"Ystyr "cynllun hyfforddi unigol" yw cynllun hyfforddi penodol sydd wedi'i lunio gan ddarparwr HCA ar sail cyflogaeth ac sy'n rhan o raglen hyfforddi ar sail cyflogaeth o dan Gynllun 2012;

Ystyr "ysgol" yw ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol (heblaw uned cyfeirio disgyblion) neu ysgol arbennig nad yw'n cael ei chynnal felly neu ysgol annibynnol;

Ystyr "safonau penodedig" yw'r safonau sy'n gymwys adeg yr asesiad ac y mae Gweinidogion Cymru wedi pennu mai hwy yw'r safonau sy'n ofynnol gan unigolion sydd am fod yn athrawon cymwysedig[3];

---

[2] Ar hyn o bryd, Rheoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Lloegr) 2003 (OS 2003/1662), fel y'u diwygiwyd gan Atodlen 15 i Ddeddf Addysg 2005 (c.18), OS 2007/2782, 2009/3156 a 2010/1172

[3] Ar hyn o bryd, Rheoliadau Cymwysterau Athrawon Ysgol (Cymru) 2012 (2012 Rhif 724)

Ystyr "addysgu" yw cyflawni gwaith o unrhyw fath sydd wedi ei benodi gan reoliadau a wnaed o dan adran 133 o Ddeddf Addysg 2002[4] a dylid dehongli "addysgu" yn unol â hynny;

Ystyr "sefydliad yn y Deyrnas Unedig" yw sefydliad a sefydlwyd yn y Deyrnas Unedig heblaw sefydliad y mae ei brif sefydliad y tu allan i'r Deyrnas Unedig, neu sy'n gysylltiedig â sefydliad o'r fath, neu sy'n rhan o sefydliad o'r fath.

**Y Rhaglenni**

9. Mae Cynllun 2012 yn cynnwys rhaglenni hyfforddi sy'n anelu at alluogi unigolion sy'n cael eu cyflogi, neu sydd wedi cael eu cyflogi mewn ysgol i ddod yn athrawon cymwysedig.

10. Mae'r RhAG yn llwybr ar sail cyflogaeth i unigolyn ddod yn athro cymwysedig o dan reoliad 5 o Reoliadau 2012 ac i ennill Statws Athro Cymwysedig ("SAC"). O dan y rhaglen hon, caiff graddedigion nad oes ganddynt SAC ymgymryd â chyfnod hyfforddi drwy ddarparwr HCA ar sail cyflogaeth at ddibenion y RhAG fel rhan o Gynllun 2012, fel y bo modd eu cyflogi i addysgu mewn ysgol tra byddant yn dilyn rhaglen hyfforddi sydd wedi'i chymeradwyo ac y bwriedir iddi eu galluogi i fodloni'r safonau penodedig.

11. Mae'r RhHYR yn llwybr i unigolyn ddod yn athro cymwysedig o dan reoliad 5 o Reoliadau 2012 ac ennill SAC sy'n cyfuno hyfforddiant ar sail cyflogaeth â chyfnod o hyfforddiant ychwanegol cyn cyflogaeth. O dan y rhaglen hon, caiff graddedigion nad oes ganddynt SAC ymgymryd â hyfforddiant at ddibenion y RhHYR fel rhan o Gynllun 2012 er mwyn iddynt fedru bodloni'r safonau penodedig. Gallai'r hyfforddiant gynnwys cyfres o hyfforddiant cychwynnol cyn cyflogaeth i'w ddilyn gan gyfnod o hyfforddiant ar sail cyflogaeth mewn ysgol wrth ddilyn rhaglen hyfforddi sydd wedi'i chymeradwyo.

12. Gall sefydliad cymeradwy drefnu a gweithredu'r RhHYR, ond rhaid i ddarparwr HCA achrededig roi'r hyfforddiant ar sail cyflogaeth. Yn achos y gyfres o hyfforddiant cychwynnol cyn cyflogaeth yn unig, gall darparwr HCA achrededig yn Lloegr roi'r hyfforddiant ar y cyd â darparwr HCA achrededig.

13. Mae'r RhAC yn llwybr ar sail cyflogaeth i unigolion heb radd sydd wedi cwblhau'n llwyddiannus yr hyn sy'n cyfateb i o leiaf dwy flynedd o addysg uwch amser llawn ac sy'n gallu cwblhau gradd wrth iddynt hyfforddi a gweithio fel athro. O dan y rhaglen, gall hyfforddeion ymgymryd â hyfforddiant drwy ddarparwr HCA ar sail cyflogaeth at ddibenion y RhAC fel rhan o Gynllun 2012 er mwyn iddynt allu cael eu cyflogi i addysgu mewn ysgol tra bônt yn dilyn rhaglen hyfforddi sydd wedi chymeradwyo a gynlluniwyd i'w galluogi i fodloni'r safonau penodedig, yn ogystal â chwblhau gradd mewn pwnc sy'n eu paratoi'n briodol ar gyfer addysgu. Mae ennill SAC yn ddibynnol ar gwblhau'n llwyddiannus y rhaglen gyfan, gan gynnwys ennill cymhwyster gradd.

14. Rhaid i ymgeiswyr ar gyfer y RhAC fod wedi'u derbyn ar gwrs o astudiaethau a fydd yn arwain at radd gyntaf (neu gymhwyster cyfatebol) mewn

---

[4] Ar hyn o bryd, Rheoliadau Addysg (Gwaith Penodedig a Chofrestru) (Cymru) 2010 (OS 2010/2710)

sefydliad yn y Deyrnas Unedig cyn iddynt ddechrau hyfforddi at ddibenion y RhAC.

15. Nid yw unigolion sy'n ymgymryd â hyfforddiant at ddibenion y RhAG, RhHYR neu'r RhAC fel rhan o'r cynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth yn athrawon cymwysedig. Er hynny, gallant addysgu mewn ysgol yn unol â darpariaethau paragraff 7 Atodlen 2 i Reoliadau Addysg (Gwaith Penodedig a Chofrestru) (Cymru) 2010.

16. Dim ond os rhoddir targedau derbyn iddynt gan Lywodraeth Cymru yn unol â'r darpariaethau ym mharagraff 17 isod y caiff darparwyr HCA achrededig yng Nghymru weithredu'r rhaglenni'r RhAG neu'r RhAC.

**Gweinyddu'r RhAG a'r RhAC**

17. Caiff Gweinidogion Cymru bennu targedau derbyn ar gyfer y RhAG a'r RhAC ar gyfer blynyddoedd academaidd penodedig a bydd y targedau hyn yn cael eu rhoi'n uniongyrchol i ddarparwyr HCA ar sail cyflogaeth yng Nghymru. Fel rhan o'r broses hysbysu hon, bydd Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi datganiad blynyddol ar bolisïau a gweithdrefnau o dan ddarpariaethau rheoliad 8(5) o Reoliadau 2012, a fydd yn nodi'r meysydd polisi hynny a fydd yn cael blaenoriaeth ac y bydd yn ofynnol i ddarparwyr HCA ar sail cyflogaeth ganolbwyntio arnynt ar gyfer y blynyddoedd academaidd penodedig, a hynny o ran y niferoedd a ddynodwyd iddynt o dan y targed derbyn ac o ran yr adnoddau sydd ganddynt.

18. Bydd y datganiad blynyddol ar bolisïau a gweithdrefnau hefyd yn nodi unrhyw arian grant a allai fod ar gael o dan delerau paragraffau 41-48 i gefnogi'r RhAG neu'r RhAC lle bydd targedau derbyn yn cael eu pennu ar gyfer y rhaglenni hynny ar gyfer y blynyddoedd academaidd penodedig.

**Dyletswyddau darparwyr HCA ar sail cyflogaeth mewn perthynas â'r RhAG**

19. Rhaid i ddarparwyr HCA ar sail cyflogaeth yng Nghymru:-

(a) farchnata, rhoi cyhoeddusrwydd a gweithredu'r RhAG a'r RhAC yn unol â datganiad blynyddol Gweinidogion Cymru am y blaenoriaethau polisi;

(b) ystyried ceisiadau am leoedd o dan Gynllun 2012 yn unol â'r gofynion mynediad (paragraffau EBR1.1 i EBR1.6 o Atodiad A) a phenderfynu a yw unigolion yn addas i hyfforddi fel athro drwy'r RhAG neu'r RhAC;

(c) llunio a darparu cynllun hyfforddi ar gyfer hyfforddeion RhAG neu RhAC a thrafod gyda'r ysgolion sy'n cyflogi'r hyfforddeion bob agwedd ar yr hyfforddiant y mae ei angen er mwyn galluogi hyfforddeion i fodloni'r safonau penodedig;

(d) trefnu bod yr hyfforddeion yn cael eu hasesu yn unol â'r safonau penodedig gan ddefnyddio'r un trefniadau asesu ag sy'n cael eu defnyddio ar gyfer y rheini sy'n dilyn cyrsiau HCA;

(e) bod yn gyfrifol am bob agwedd ar weinyddu a darparu Cynllun 2012 o fewn y gofynion a bennir yn y datganiad blynyddol o flaenoriaethau polisi gan gynnwys y trefniadau ar gyfer dewis hyfforddeion ar gyfer y lleoedd sydd ar gael; rheoli'r prosesau apelio; gwneud y trefniadau

angenrheidiol i dalu'r ysgolion sy'n cymryd rhan; a monitro cynnydd yr hyfforddeion.

20. Cyn y caiff unigolyn ei dderbyn ar y RhAG, rhaid i ddarparwyr HCA ar sail cyflogaeth sicrhau bod y darpar hyfforddeion yn bodloni'r holl ofynion mynediad a amlinellir ym mharagraffau EBR1.1 i EBR1.6 o Atodiad A[5]. Rhaid i ddarparwyr HCA ar sail cyflogaeth yng Nghymru hefyd sicrhau bod:-

(a) systemau priodol ar gael i ofyn am wybodaeth ynghylch a oes gan ddarpar hyfforddeion gefndir troseddol a allai eu hatal rhag gweithio gyda phlant neu unigolion ifanc (neu a allai olygu eu bod yn anaddas i weithio gyda hwy), neu fel athro neu athrawes; a sicrhau nad yw'r darpar hyfforddeion wedi cael eu heithrio rhag addysgu neu weithio gyda phlant yn y gorffennol;

(b) pob ymgeisydd a dderbyniwyd ar y RhAG, fel rhan o'r gweithdrefnau dethol, wedi cael cyfweliad priodol.

21. Rhaid i ddarparwyr HCA ar sail cyflogaeth fodloni:-

(a) y gofynion hyfforddi ac asesu a nodir ym mharagraffau EBR2.1 i EBR2.9 o Atodiad A;

(b) y gofynion ynghylch rheoli'r bartneriaeth hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth a amlinellir ym mharagraffau EBR3.1 i EBR3.3 o Atodiad A;

(c) y gofynion ynglŷn â sicrhau ansawdd a nodir ym mharagraffau EBR4.1 i EBR4.5 o Atodiad A.

22. Rhaid i ddarparwyr HCA ar sail cyflogaeth wneud trefniadau ag ysgol(ion) addas er mwyn cadarnhau lleoliadau ar gyfer hyfforddeion a sicrhau y gall yr ysgol(ion), gydol y rhaglen RhAG, ac yn ystod unrhyw ran ohoni, ddarparu'r hyn sydd ei angen er mwyn galluogi hyfforddeion i ddangos eu bod yn bodloni'r safonau penodedig.[6] Drwy wneud hyn, rhaid i ddarparwyr HCA ar sail cyflogaeth sicrhau nad oes mwy na thri hyfforddai (gan gynnwys hyfforddeion RhAG a RhAC) yn cael eu lleoli mewn unrhyw un ysgol yn ystod un flwyddyn academaidd.

23. Rhaid i'r darparwr HCA ar sail cyflogaeth, ar ôl archwilio sgiliau ac asesu anghenion yr hyfforddai, bennu manylion penodol yr hyfforddiant sydd i'w ddarparu i'r hyfforddai ynghyd â hyd y cyfnod arfaethedig o hyfforddiant. Bydd gofyn nodi'r manylion hyn mewn cynllun hyfforddi unigol y cytunir arno'n ffurfiol â'r ysgol lle y bydd yr hyfforddai yn derbyn ei hyfforddiant a chyda'r hyfforddai.

24. Rhaid i hyd y cyfnod arfaethedig o hyfforddiant gyd-fynd ag anghenion yr hyfforddai o ran profiad ymarferol o addysgu a hyfforddiant. O ran ceisiadau cyntaf, lle y caiff hyfforddai ei gyflogi'n amser llawn, ni all y cyfnod arfaethedig o hyfforddiant fod yn llai na thri mis (neu un tymor academaidd) nac yn hwy nag un

---

[5] Mae'r gofynion o ran mynediad a dethol yr hyfforddeion yn safonau gofynnol. Gall fod gan ddarparwyr HCA ar sail cyflogaeth unigol feini prawf ychwanegol y byddant yn dymuno eu defnyddio a gallant wneud hynny ar yr amod bod y safonau gofynnol yn cael eu bodloni.

[6] Nid oes yn rhaid i ddarparwyr HCA ar sail cyflogaeth drefnu ysgolion penodol ar gyfer hyfforddeion RhAG. Dylai darpar hyfforddeion RhAG ddod o hyd i ysgol sy'n barod i'w cyflogi a'u cefnogi gydol eu hyfforddiant.

flwyddyn academaidd. Rhaid i'r darparwr HCA ar sail cyflogaeth oruchwylio'r modd y caiff y cynllun hyfforddi unigol ei weithredu.

25. Rhaid i'r darparwr HCA ar sail cyflogaeth fodloni'r gofynion lleiaf o ran amser hyfforddi mewn ysgolion a hyfforddiant a arweinir gan brifysgol fel y'u nodwyd ym mharagraff EBR 2.6 o Atodiad A. O ran rhaglenni hyfforddiant sy'n llai nag un flwyddyn academaidd o hyd, bydd y cyfnod o hyfforddiant a arweinir gan brifysgol a'r cyfnod mewn ail ysgol a/neu ysgol(ion) arall/eraill yn cael eu trefnu ar sail pro rata, gan ddibynnu ar anghenion yr hyfforddai ac anghenion yr ysgol.

**Dyletswyddau darparwyr HCA ar sail cyflogaeth mewn perthynas â'r RhAC**

26. Cyn i unigolyn gael ei dderbyn ar y RhAC, mae'n rhaid i ddarparwyr HCA ar sail cyflogaeth yng Nghymru sicrhau bod y darpar hyfforddeion yn bodloni'r holl ofynion mynediad a amlinellir ym mharagraffau EBR1.1 i EBR1.6 o Atodiad A[7]. Rhaid i ddarparwyr HCA ar sail cyflogaeth yng Nghymru sicrhau bod:-

(a) systemau priodol ar gael i ofyn am wybodaeth ynghylch a oes gan ddarpar hyfforddeion gefndir troseddol a allai eu hatal rhag gweithio gyda phlant neu unigolion ifanc (neu a allai olygu eu bod yn anaddas i weithio gyda hwy), neu fel athro neu athrawes; a sicrhau nad yw'r darpar hyfforddeion wedi cael eu heithrio rhag addysgu neu weithio gyda phlant yn y gorffennol;

(b) pob ymgeisydd a dderbyniwyd ar y RhAC, fel rhan o'r gweithdrefnau dethol, wedi cymryd rhan mewn cyfweliad addas.

27. Mae'n rhaid i ddarparwyr HCA ar sail cyflogaeth fodloni:-

(a) y gofynion hyfforddi ac asesu a nodir ym mharagraffau EBR2.1 i EBR2.9 o Atodiad A;

(b) y gofynion ynghylch rheoli'r bartneriaeth hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth a nodir ym mharagraffau EBR3.1 i EBR3.3 o Atodiad A;

(c) y gofynion ynglŷn â sicrhau ansawdd a nodir ym mharagraffau EBR4.1 i EBR4.5 o Atodiad A.

28. Rhaid i ddarparwyr HCA ar sail cyflogaeth wneud trefniadau ag ysgol(ion) addas er mwyn cadarnhau lleoliadau ar gyfer hyfforddeion a sicrhau y gall yr ysgol(ion), gydol y rhaglen RhAC, ac yn ystod unrhyw ran ohoni, ddarparu'r hyn sydd ei angen er mwyn galluogi hyfforddeion i ddangos eu bod yn bodloni'r safonau penodedig.[8]

29. Rhaid i ddarparwyr HCA ar sail cyflogaeth, ar ôl archwilio sgiliau ac asesu anghenion yr hyfforddai, bennu manylion penodol yr hyfforddiant sydd i'w ddarparu i'r hyfforddai ynghyd â hyd y cyfnod arfaethedig o hyfforddiant. Caiff y

---

7 Mae'r gofynion o ran mynediad a dethol yr hyfforddeion yn safonau gofynnol.Gall fod gan ddarparwyr HCA ar sail cyflogaeth unigol feini prawf ychwanegol y byddant yn dymuno eu defnyddio a gallant wneud hynny ar yr amod bod y safonau gofynnol yn cael eu bodloni.

8 Nid oes yn rhaid i ddarparwyr HCA ar sail cyflogaeth drefnu ysgolion penodol ar gyfer hyfforddeion y RhAC. Dylai darpar hyfforddeion y RhAC ddod o hyd i ysgol sy'n barod i'w cyflogi a'u cefnogi gydol eu hyfforddiant.

manylion hyn eu hamlinellu mewn cynllun hyfforddi unigol y cytunir arno'n ffurfiol â'r ysgolion lle y bydd yr hyfforddai yn derbyn ei hyfforddiant a chyda'r hyfforddai.

30. Rhaid i hyd y cyfnod arfaethedig o hyfforddiant gyd-fynd ag anghenion yr hyfforddai o ran profiad ymarferol o addysgu a hyfforddiant. O ran ceisiadau cyntaf, lle y caiff hyfforddai ei gyflogi'n amser llawn, ni all y cyfnod arfaethedig o hyfforddiant fod yn llai nag un flwyddyn academaidd nac yn hwy na dwy flynedd academaidd. Rhaid i'r darparwr HCA ar sail cyflogaeth oruchwylio'r modd y caiff y cynllun hyfforddi unigol ei weithredu.

31. Rhaid i'r darparwr HCA ar sail cyflogaeth fodloni'r gofynion lleiaf o ran amser hyfforddi mewn ysgolion fel y'u nodwyd ym mharagraff EBR 2.5 o Atodiad A.

**Gofynion cyffredinol y RhAG a'r RhAC**

***(i) darparu hyfforddiant***

32. Rhaid i ddarparwyr HCA ar sail cyflogaeth sicrhau bod yr hyfforddai, yn ystod y cyfnod o hyfforddiant ar sail cyflogaeth, yn cael yr hyfforddiant y cytunwyd arno yn y cynllun hyfforddi unigol y cyfeirir ato ym mharagraffau 23 a 29.

33. Rhaid i ddarparwyr HCA ar sail cyflogaeth wneud trefniadau er mwyn sicrhau y gall hyfforddeion dderbyn yr hyfforddiant angenrheidiol mewn ysgol arall, os oes angen, er mwyn eu galluogi i fodloni'r safonau penodedig, mewn achosion lle:-

(a) nid yw'r hyfforddiant yn cael ei ddarparu gan ysgol yn unol â'r hyn y cytunwyd arno mewn cynllun hyfforddi unigol (am ba bynnag reswm) ac nid yw'n bosibl datrys y sefyllfa mewn modd boddhaol;

(b) mae ysgol yn cau; neu

(c) mae ysgol yn newid ei chategori.

***(ii) terfynu rhaglen hyfforddi yn gynnar***

34. Bydd rhaglen hyfforddi o dan y RhAG neu'r RhAC yn dod i ben cyn i'r cynllun hyfforddi unigol y cyfeirir ato ym mharagraffau 23 a 29 gael ei gwblhau neu cyn i asesiad gael ei wneud o dan ddarpariaethau paragraff 38:

(a) os bydd hyfforddai yn tynnu'n ôl o naill ai'r RhAG neu'r RhAC, boed oherwydd salwch, beichiogrwydd neu fel arall; neu

(b) os bydd yr hyfforddai'n peidio â chael ei gyflogi gan yr ysgol neu'r awdurdod lleol a oedd yn ei gyflogi ar ddechrau'r cynllun hyfforddi unigol y cyfeirir ato ym mharagraffau 23 a 29 ac eithrio:-

   (i) os yw hynny'n digwydd oherwydd newid categori ysgol neu ysgolion (yn ôl fel y digwydd) lle mae'n cael ei gyflogi i fath arall o ysgol neu ysgolion, neu

   (ii) os yw ysgol neu ysgolion (yn ôl fel y digwydd) lle y cânt eu cyflogi yn cau, neu

   (iii) os awdurdod lleol yng Nghymru oedd y cyflogwr a bod yr hyfforddai, yn union ar ôl peidio â chael ei gyflogi gan yr awdurdod

hwnnw, yn cael ei gyflogi gan awdurdod lleol arall yng Nghymru; neu

(c) os nad yw'r hyfforddai ym marn resymol y darparwr HCA ar sail cyflogaeth yn llwyddo i wneud cynnydd boddhaol yn ystod y rhaglen hyfforddi i'w alluogi i fodloni'r safonau penodedig.

***(iii) estyn neu adfer rhaglen hyfforddi***

35. Caiff darparwr HCA ar sail cyflogaeth estyn neu adfer hyfforddiant o dan y RhAG neu'r RhAC:-

(a) os na chyflawnwyd yr hyfforddiant, neu os nad yw'n debygol o gael ei gyflawni yn llawn fel y cytunwyd yn y cynllun hyfforddi unigol am resymau salwch, beichiogrwydd neu amgylchiadau eraill y tu hwnt i reolaeth yr hyfforddai; neu

(b) os yw'r hyfforddai o dan sylw yn dymuno parhau â'i hyfforddiant yn yr un ysgol neu ysgolion, ond bod y darparwr HCA ar sail cyflogaeth o'r farn nad oes digon o amser yn weddill yn y rhaglen hyfforddi unigol i'w alluogi i fodloni'r safonau penodedig.

36. Yn achos unrhyw raglen a estynnir neu a adferir o dan ddarpariaethau paragraff 35, rhaid i'r darparwr HCA ar sail cyflogaeth sicrhau y byddai'n ddigon hir i ganiatáu i'r hyfforddai gwblhau ei hyfforddiant yn unol â'i gynllun hyfforddi unigol y cytunwyd arno er mwyn bodloni'r safonau penodedig. Y cyfnod lleiaf o estyniad y caniateir ei roi yw cyfnod o 3 mis.

37. Ni fydd Gweinidogion Cymru o dan unrhyw rwymedigaeth i ddarparu unrhyw gyllid pellach, yn ychwanegol at yr hyn a bennwyd yn eu datganiad blynyddol ar bolisïau a gweithdrefnau lle y caiff rhaglen hyfforddi ei hestyn neu ei hailgyflwyno.

***(iv) asesu hyfforddeion***

38. Ar ddiwedd y cyfnod hyfforddi rhaid i'r darparwr HCA ar sail cyflogaeth drefnu i'r hyfforddai gael ei asesu yn erbyn y safonau penodedig. Rhaid i'r darparwr HCA ar sail cyflogaeth ddefnyddio'r un trefniadau asesu ag sy'n cael eu defnyddio ar gyfer y rheini sy'n dilyn cyrsiau HCA.

39. Ar ôl yr asesiad, rhaid i ddarparwyr HCA ar sail cyflogaeth gadarnhau i'r corff priodol[9] y gall hyfforddeion RhAG neu RhAC gael eu hysbysu eu bod yn athrawon cymwys ar yr amod eu bod:-

(a) wedi cwblhau'r RhAG neu'r RhAC (yn ôl fel y digwydd) yn llwyddiannus yn erbyn telerau cynllun hyfforddi unigol y cytunwyd arnynt ymlaen llaw am gyfnod o hyfforddiant ar sail cyflogaeth:-

   i. nad yw'n llai na thri mis (neu un tymor academaidd) o wasanaeth o dan y RhAG; neu

---

[9] Adeg cyhoeddi, y corff priodol o dan Reoliadau 2012 yw Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru("y Cyngor"). Caiff Gweinidogion Cymru hefyd roi gwybod i unigolion eu bod yn athrawon cymwysedig ond maen nhw wedi cytuno ar drefniadau gyda'r Cyngor er mwyn i'r Cyngor drafod pob achos heblaw o dan amgylchiadau eithriadol.

   ii. nad yw'n llai nag un flwyddyn academaidd o wasanaeth o dan y RhAC;

(b) wedi'u asesu felunigolion sy'n bodloni'r safonau penodedig;

(c) yn meddu ar radd gyntaf neu gymhwyster cyfatebol a ddyfarnwyd gan sefydliad yn y Deyrnas Unedig, neu gymhwyster a ddyfarnwyd mewn sefydliad addysgol yn rhywle arall, sydd o safon gyfatebol ym marn Gweinidogion Cymru.

***(v) proses apelio***

40. Rhaid i ddarparwyr HCA ar sail cyflogaeth wneud darpariaeth ar gyfer proses apelio i unigolion sy'n ymgymryd â'r RhAG neu'r RhAC sy'n gyson â'r arferion a/neu'r prosesau cyfredol sydd ar gael i ystyried apelau gan hyfforddeion ar unrhyw gwrs neu raglen HCA y maent yn eu darparu.

**Grantiau RhAG a'r RhAC**

41. Gallai Gweinidogion Cymru sicrhau bod grantiau ar gael i ddarparwyr HCA ar sail cyflogaeth i'w darparu i ysgolion a gynhelir neu ysgolion arbennig nas cynhelir sy'n cyflogi unigolion sydd ag awdurdod i ymgymryd â hyfforddiant at ddibenion y RhAG neu'r RhAC er mwyn bodloni'n llawn, neu'n rhannol, gostau cyflogau'r unigolion hynny ("grantiau cyflog").

42. Gallai Gweinidogion Cymru ddarparu grantiau i ddarparwyr HCA ar sail cyflogaeth sy'n darparu hyfforddiant at ddibenion y RhAG neu'r RhAC er mwyn bodloni'n llawn, neu'n rhannol, gostau'r hyfforddiant hwnnw ("grantiau hyfforddi"). Lle y caiff grant hyfforddi ei ddarparu i ddarparwyr HCA ar sail cyflogaeth, un o amodau'r grant yw na chaniateir i ddarparwyr HCA ar sail cyflogaeth geisio unrhyw gyllid ychwanegol mewn cysylltiad â hyfforddiant at ddibenion y RhAG na'r RhAC oddi wrth unrhyw ysgol sy'n rhan o'r rhaglenni hynny.

43. Gall Gweinidogion Cymru:-

(a) bennu swm unrhyw grantiau cyflog neu grantiau hyfforddi y maent yn darparu ar lefel y maent o'r farn ei bod yn briodol;

(b) cyfyngu ar nifer y grantiau cyflog neu'r grantiau hyfforddi a gaiff eu cynnig mewn unrhyw flwyddyn academaidd benodedig;

(c) darparu grantiau cyflog neu grantiau hyfforddi dim ond mewn achosion lle'r ymgymerir â hyfforddiant at ddibenion y RhAG neu'r RhAC mewn perthynas â chamau addysgu penodol neu bynciau penodol, neu mewn perthynas â mathau arbennig o geisiadau neu gynlluniau hyfforddi unigol.

44. Gall Gweinidogion Cymru ddarparu grant i ddarparwyr HCA ar sail cyflogaeth sy'n derbyn cyllid o dan baragraff 41 gyda grant ar lefel y mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn briodol er mwyn cydnabod y costau gweinyddol a'r costau cysylltiedig o ran gwneud taliadau o dan y paragraff hwnnw.

45. Gall Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i unrhyw grant a ddarperir o dan y darpariaethau ym mharagraff 41 a/neu 42 gael ei ad-dalu yn gyfan neu'n rhannol os yw cyfnod yr hyfforddiant, am ba bynnag reswm, yn llai na chyfnod yr

hyfforddiant a bennir mewn unrhyw gynllun hyfforddi unigol y cyfeirir ato ym mharagraffau 23 a 29.

46. Bydd y swm y bydd gofyn ei ad-dalu am unrhyw grant a ddarperir o dan y darpariaethau ym mharagraff 41 hyd at uchafswm cyfran y grant a ddarperir, sy'n cyfateb i gyfran y cyfnod o hyfforddiant a bennir mewn cynllun hyfforddi unigol, y cyfeirir ato ym mharagraffau 23 a 29, pan na chynhaliwyd unrhyw hyfforddiant. Y swm y bydd gofyn ei ad-dalu am unrhyw grant a ddarparwyd o dan ddarpariaethau paragraff 42 fydd unrhyw arian grant nad oedd wedi'i ddefnyddio ar yr adeg pan ddaeth yr hyfforddiant i ben.

47. Gallai Gweinidogion Cymru dalu am unrhyw gostau y maent o'r farn eu bod yn briodol yn gysylltiedig â chais unigolyn am hyfforddiant o dan y RhAG neu'r RhAC ac asesiad dilynol yn unol â'r safonau penodedig.

48. Cyn darparu unrhyw grantiau neu ddarparu costau eraill mewn unrhyw flwyddyn ariannol rhaid i Weinidogion Cymru yn gyntaf bennu'r grantiau a'r costau a faint ohonynt sydd ar gael yn y datganiad blynyddol o bolisïau a gweithdrefnau y maent yn ei ddosbarthu i ddarparwyr HCA ar sail cyflogaeth o dan ddarpariaethau paragraff 17.

### Monitro a gwerthuso'r RhAG a'r RhAC

49. Rhaid i ddarparwyr HCA ar sail cyflogaeth sy'n cyflwyno hyfforddiant athrawon ar sail cyflogaeth o dan y RhAG neu'r RhAC roi gwybodaeth i Weinidogion Cymru (ar y ffurf a bennir gan Lywodraeth Cymru o dro i dro) sy'n nodi statws a nifer yr hyfforddeion ar y rhaglenni RhAG a RhAC; y costau perthynol; deilliannau'r rhaglenni hyfforddi; ynghyd ag unrhyw ddata arall a allai fod yn ofynnol.

### Gweinyddu'r RhHYR

50. Caiff Gweinidogion Cymru bennu targedau derbyn ar gyfer y RhHYR ar gyfer blynyddoedd academaidd penodedig a bydd y targedau hyn yn cael eu rhoi'n uniongyrchol i'r sefydliad cymeradwy. Fel rhan o'r broses hysbysu hon, bydd Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi datganiad blynyddol o dan ddarpariaethau rheoliad 8(5) o Reoliadau 2012, a fydd yn nodi'r meysydd polisi hynny a fydd yn cael blaenoriaeth ac y bydd yn ofynnol i'r sefydliad cymeradwy ganolbwyntio arnynt ar gyfer y blynyddoedd academaidd penodedig, a hynny o ran y niferoedd a ddynodwyd iddo o dan y targed derbyn ac o ran yr adnoddau sydd ganddo.

### Dyletswyddau'r sefydliad cymeradwy mewn perthynas â'r RhHYR

51. Rhaid i'r sefydliad cymeradwy:-

(a) farchnata, rhoi cyhoeddusrwydd a gweithredu'r RhHYR yn unol â'r datganiad a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru o dan ddarpariaethau paragraff 50;

(b) ystyried ceisiadau am leoedd o dan Gynllun 2012 yn unol â'r gofynion mynediad (paragraffau EBR1.1 i EBR1.6 o Atodiad A) a phenderfynu a yw unigolion yn addas i hyfforddi fel athro o dan y RhHYR;

(c) trefnu, ar y cyd â hyfforddwr HCA achrededig (ac, fel y darperir ar ei gyfer ym mharagraff 59, darparwr HCA achrededig yn Lloegr), i gyfnod penodol o hyfforddiant cychwynnol cyn cyflogaeth gael ei lunio a'i ddarparu i hyfforddeion y RhHYR, a'r hyfforddiant hwnnw i'w gwblhau cyn i'r hyfforddeion ddechrau ar gyfnod o hyfforddiant ar sail cyflogaeth mewn ysgol lle y cânt eu cyflogi i addysgu;

(d) llunio a darparu, ar y cyd â darparwr HCA achrededig, gynllun hyfforddi ar gyfer hyfforddeion y RhHYR i'w ddilyn tra bônt yn cael eu cyflogi i addysgu mewn ysgol, a sicrhau bod y darparwr HCA achrededig yn trafod, ag ysgolion sy'n cyflogi'r hyfforddeion, bob agwedd ar yr hyfforddiant sydd ei angen i alluogi hyfforddeion i fodloni'r safonau penodedig;

(e) trefnu bod yr hyfforddeion yn cael eu hasesu gan ddarparwr HCA achrededig yn unol â'r safonau penodedig gan ddefnyddio'r un trefniadau asesu ag sy'n cael eu defnyddio ar gyfer y rheini sy'n dilyn cyrsiau HCA;

(f) bod yn gyfrifol am bob agwedd ar weinyddu a darparu Cynllun 2012 o fewn y gofynion a bennir yn y datganiad a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru o dan ddarpariaethau paragraff 50, gan gynnwys y trefniadau ar gyfer dethol hyfforddeion ar gyfer y lleoedd sydd ar gael; rheoli'r prosesau apelio; a monitro cynnydd yr hyfforddeion.

52. Cyn y caiff unigolyn ei dderbyn ar y RhHYR, rhaid i'r sefydliad cymeradwy sicrhau bod y darpar hyfforddeion yn bodloni'r holl ofynion mynediad a amlinellir ym mharagraffau EBR1.1 i EBR1.6 o Atodiad A[10]. Rhaid i'r sefydliad cymeradwy sicrhau bod

(a) systemau priodol ar gael i ofyn am wybodaeth ynghylch a oes gan ddarpar hyfforddeion gefndir troseddol a allai eu hatal rhag gweithio gyda phlant neu unigolion ifanc (neu a allai olygu eu bod yn anaddas i weithio gyda hwy), neu fel athro neu athrawes; a sicrhau nad yw'r darpar hyfforddeion wedi cael eu heithrio rhag addysgu neu weithio gyda phlant yn y gorffennol;

(b) pob ymgeisydd a dderbyniwyd ar y RhHYR, fel rhan o'r gweithdrefnau dethol, wedi cymryd rhan mewn cyfweliad addas.

53. Rhaid i'r sefydliad cymeradwy sicrhau bod cynnwys, strwythur a'r modd y darperir y cyfnod penodedig o hyfforddiant cychwynnol cyn cyflogaeth ar gyfer hyfforddeion y RhHYR yn adlewyrchu'r safonau penodedig, ac y bydd, ynghyd â'r rhaglen hyfforddi a chaiff ei dilyn tra bônt yn cael eu cyflogi i addysgu mewn ysgol, yn galluogi athrawon dan hyfforddiant i ddangos eu bod yn bodloni'r safonau penodedig.

54. Rhaid i'r sefydliad cymeradwy sicrhau bod y darparwyr HCA achrededig yn bodloni:-

(a) y gofynion hyfforddi ac asesu a nodir ym mharagraffau EBR2.1 i EBR2.9 o Atodiad A;

---

10 Mae'r gofynion o ran mynediad a dethol yr hyfforddeion yn safonau gofynnol. Mae'n bosibl y bydd gan y sefydliad cymeradwy feini prawf ychwanegol y bydd yn dymuno eu defnyddio a gall wneud hynny ar yr amod bod y safonau gofynnol yn cael eu bodloni.

(b) gofynion ynghylch rheoli'r bartneriaeth hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth a amlinellir ym mharagraffau EBR3.1 i EBR3.3 o Atodiad A;

(c) y gofynion ynglŷn â sicrhau ansawdd a nodir ym mharagraffau EBR4.1 i EBR4.5 o Atodiad A.

55. Rhaid i'r sefydliad cymeradwy, ar y cyd â darparwr HCA achrededig, wneud trefniadau ag ysgol(ion) addas er mwyn cadarnhau lleoliadau ar gyfer hyfforddeion a sicrhau y gall yr ysgol(ion), gydol y rhaglen RhHYR, ac yn ystod unrhyw ran ohoni, ddarparu'r hyn sydd ei angen er mwyn galluogi hyfforddeion i ddangos eu bod yn bodloni'r safonau penodedig. Drwy wneud hyn, rhaid i'r sefydliad cymeradwy sicrhau nad oes mwy na thri hyfforddai RhHYR newydd yn cael eu lleoli mewn unrhyw un ysgol yn ystod un flwyddyn academaidd.

56. Rhaid i'r sefydliad cymeradwy sicrhau bod darparwr HCA achrededig, ar ôl archwilio sgiliau ac asesu anghenion yr hyfforddai, wedi pennu manylion penodol yr hyfforddiant sydd i'w ddarparu i'r hyfforddeion ynghyd â hyd y cyfnod arfaethedig o hyfforddiant. Bydd gofyn nodi'r manylion hyn mewn cynllun hyfforddi unigol y cytunir arno'n ffurfiol â'r ysgol lle y bydd yr hyfforddai yn derbyn ei hyfforddiant a chyda'r hyfforddai.

57. Rhaid i hyd y cyfnod arfaethedig o hyfforddiant gyd-fynd ag anghenion yr hyfforddai o ran profiad ymarferol o addysgu a hyfforddiant. O ran ceisiadau cyntaf, lle y caiff hyfforddai ei gyflogi'n amser llawn, ni all y cyfnod arfaethedig o hyfforddiant fod yn llai na thri mis (neu un tymor academaidd) nac yn hwy nag un flwyddyn academaidd. Rhaid i'r sefydliad cymeradwy sicrhau bod darparwr HCA achrededig yn goruwchylio'r modd y caiff y cynllun hyfforddi unigol ei ddarparu.

58. Rhaid i'r sefydliad cymeradwy sicrhau bod y darparwr HCA achrededig yn bodloni'r gofynion lleiaf o ran amser hyfforddi mewn ysgolion a hyfforddiant a arweinir gan brifysgol, fel y'u nodwyd ym mharagraff EBR 2.6 o Atodiad A. O ran rhaglenni hyfforddi sy'n llai nag un flwyddyn academaidd o hyd, bydd y cyfnod o hyfforddiant a arweinir gan brifysgol a'r cyfnod mewn ail ysgol a/neu ysgol(ion) arall/eraill yn cael eu trefnu ar sail pro rata, gan ddibynnu ar anghenion yr hyfforddai ac anghenion yr ysgol.

## Gofynion cyffredinol y Rhaglen Hyfforddiant Ychwanegol i Raddedigion

### *(i) darparu cyfnod o hyfforddiant cychwynnol*

59. Rhaid i'r sefydliad cymeradwy ddarparu, ar y cyd â darparwr HCA achrededig, gyfnod penodedig o hyfforddiant cychwynnol cyn cyflogaeth i hyfforddeion y RhHYR, i'w gwblhau cyn i'r hyfforddeion gael eu cyflogi i addysgu mewn ysgol. Rhaid i o leiaf 50% o'r cyfnod hyfforddi cychwynnol cyn cyflogaeth gael ei ddarparu yng Nghymru. Gall darparwr HCA achrededig yn Lloegr gymryd rhan yn y gwaith o lunio a darparu cwrs ar y cyd â darparwr HCA achrededig, ond ni all darparwr HCA achrededig yn Lloegr ddarparu dim mwy na 50% o'r hyfforddiant cychwynnol cyn cyflogaeth.

### *(ii) darparu hyfforddiant ar sail cyflogaeth*

60. Rhaid i'r sefydliad cymeradwy sicrhau bod yr hyfforddai, yn ystod y cyfnod o hyfforddiant ar sail cyflogaeth, yn cael, gan ddarparwr HCA achrededig, yr

hyfforddiant y cytunwyd arno yn y cynllun hyfforddi unigol y cyfeirir ato ym mharagraff 56.

61. Rhaid i'r sefydliad cymeradwy, gan drafod â'r darparwr HCA achrededig, wneud trefniadau er mwyn sicrhau y gall hyfforddeion dderbyn yr hyfforddiant angenrheidiol mewn ysgol arall, os oes angen, er mwyn eu galluogi i fodloni'r safonau penodedig, mewn achosion lle:-

(a) nid yw'r hyfforddiant yn cael ei ddarparu gan ysgol yn unol â'r hyn y cytunwyd arno mewn cynllun hyfforddi unigol (am ba bynnag reswm) ac nid yw'n bosibl datrys y sefyllfa mewn modd boddhaol;

(b) mae ysgol yn cau; neu

(c) mae ysgol yn newid ei chategori.

***(iii) terfynu rhaglen hyfforddi yn gynnar***

62. Bydd rhaglen hyfforddi o dan y RhHYR yn dod i ben cyn i'r cynllun hyfforddi unigol y cyfeirir ato ym mharagraff 56 gael ei gwblhau neu cyn i asesiad gael ei wneud o dan ddarpariaethau paragraff 65:

(a) os bydd hyfforddai yn tynnu'n ôl o'r RhHYR, boed oherwydd salwch, beichiogrwydd neu fel arall; neu

(b) os yw'r hyfforddai dan sylw yn peidio â chael ei gyflogi gan yr ysgol neu'r awdurdod lleol a oedd yn ei gyflogi ar ddechrau'r cynllun hyfforddi unigol y cyfeirir ato ym mharagraff 56 ac eithrio:-

    (i) os yw hynny'n digwydd oherwydd newid categori ysgol neu ysgolion (yn ôl fel y digwydd) lle mae'n cael ei gyflogi i fath arall o ysgol neu ysgolion, neu

    (ii) os yw hynny'n digwydd oherwydd cau ysgol neu ysgolion (yn ôl fel y digwydd) lle y cânt eu cyflogi, neu

    (iii) os awdurdod lleol yng Nghymru oedd y cyflogwr a bod yr hyfforddai, yn union ar ôl peidio â chael ei gyflogi gan yr awdurdod hwnnw, yn cael ei gyflogi gan awdurdod lleol arall yng Nghymru; neu

(c) os nad yw'r hyfforddai ym marn resymol y darparwr HCA achrededig yn llwyddo i wneud cynnydd boddhaol yn ystod y rhaglen hyfforddi a fydd yn ei alluogi i fodloni'r safonau penodedig.

***(iv) estyn neu adfer rhaglen hyfforddi***

63. Caiff y sefydliad cymeradwy estyn neu adfer rhaglen hyfforddi o dan y RhHYR:

(a) os na chyflawnwyd yr hyfforddiant, neu os nad yw'n debygol o gael ei gyflawni, yn llawn fel y cytunwyd yn y cynllun hyfforddi unigol am resymau salwch, beichiogrwydd neu amgylchiadau eraill y tu hwnt i reolaeth yr hyfforddai; neu

(b) os yw'r hyfforddai o dan sylw yn dymuno parhau â'i hyfforddiant yn yr un ysgol neu ysgolion, ond bod y darparwr HCA achrededig o'r farn nad oes digon o amser yn weddill yn y rhaglen hyfforddi unigol i'w alluogi i fodloni'r safonau penodedig.

64. Yn achos unrhyw raglen a estynnir neu a adferir o dan ddarpariaethau paragraff 63, rhaid i'r sefydliad cymeradwy sicrhau bod y darparwr HCA achrededig yn fodlon y byddai'n ddigon hir i ganiatáu i'r hyfforddai gwblhau ei hyfforddiant yn unol â'i gynllun hyfforddi unigol y cytunwyd arno er mwyn bodloni'r safonau penodedig. Y cyfnod lleiaf o estyniad y caniateir ei roi yw cyfnod o 3 mis.

***(v) asesu hyfforddeion y Rhaglen Hyfforddiant Ychwanegol i Raddedigion***

65. Ar ddiwedd y cyfnod hyfforddi rhaid i'r sefydliad cymeradwy sicrhau bod y darparwr HCA achrededig yn trefnu i'r hyfforddeion gael eu hasesu yn erbyn y safonau penodedig. Rhaid i'r darparwr HCA achrededig ddefnyddio'r un trefniadau asesu a ddefnyddir ar gyfer unigolion sy'n dilyn cyrsiau HCA.

66. Ar ôl yr asesiad, rhaid i'r darparwr HCA achrededig gadarnhau wrth y corff priodol[11] (gan anfon copi o'r cadarnhad hwn i'r sefydliad cymeradwy) y gall hyfforddeion y RhHYR gael eu hysbysu eu bod yn athrawon cymwys ar yr amod eu bod:-

(a) wedi cwblhau cyfnod penodedig o hyfforddiant cychwynnol cyn cyflogaeth ar gyfer hyfforddeion y RhHYR cyn cael eu cyflogi i addysgu mewn ysgol;

(b) wedi cwblhau'r RhHYR yn llwyddiannus yn erbyn telerau'r cynllun hyfforddi unigol y cytunwyd arno ymlaen llaw am gyfnod o hyfforddiant seiliedig ar gyflogaeth nad yw'n llai na thri mis (neu un tymor academaidd);

(c) wedi'u hasesu fel unigolion sy'n bodloni'r safonau penodedig;

(d) yn meddu ar radd gyntaf neu gymhwyster cyfatebol a ddyfarnwyd gan sefydliad yn y Deyrnas Unedig, neu gymhwyster a ddyfarnwyd mewn sefydliad addysgol yn rhywle arall, sydd o safon gyfatebol ym marn Gweinidogion Cymru.

***(vi) proses apelio***

67. Rhaid i'r sefydliad cymeradwy sicrhau bod y darparwr HCA achrededig yn gwneud darpariaeth ar gyfer proses apelio i unigolion sy'n ymgymryd â chynllun hyfforddiant y RhHYR tra bônt yn cael eu cyflogi i weithio mewn ysgol sy'n gyson â'r arferion a/neu'r prosesau cyfredol sydd ar gael i ystyried apelau gan hyfforddeion ar unrhyw gwrs neu raglen HCA y maent yn eu darparu.

**Monitro a gwerthuso'r RhHYR**

68. Rhaid i'r sefydliad cymeradwy roi gwybodaeth i Weinidogion Cymru (ar y ffurf a bennir gan Weinidogion Cymru o dro i dro) sy'n nodi statws a nifer yr hyfforddeion ar y RhHYR; y costau perthynol; deilliannau'r rhaglenni hyfforddi; ynghyd ag unrhyw ddata arall a allai fod yn ofynnol.

---

[11] Adeg cyhoeddi, y corff priodol o dan Reoliadau 2012 yw Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru("y Cyngor"). Caiff Gweinidogion Cymru hefyd roi gwybod i unigolion eu bod yn athrawon cymwysedig ond maen nhw wedi cytuno ar drefniadau gyda'r Cyngor er mwyn i'r Cyngor drafod pob achos heblaw o dan amgylchiadau eithriadol.

**Amseru a threfniadau trosiannol**

69. Mae gofynion Cynllun 2012 yn gymwys i raglenni RhAG neu RhAC, os yw'r cyfnod hyfforddi'n dechrau ar 1 Medi 2013 neu wedi hynny, ac i raglenni'r RhHYR os yw'r cyfnod hyfforddi'n dechrau ar 1 Mehefin 2013 neu wedi hynny.

70. Ac eithrio fel y darperir ym mharagraff 71, bydd Cynllun 2011 yn peidio â chael effaith o 1 Medi 2013.

71. Bydd darpariaethau Cynllun 2011 (ac unrhyw ganllawiau a gyhoeddwyd o dan reoliad 8(5) o Reoliadau 2004 ac yn berthnasol wedyn i Gynllun 2011) yn dal yn gymwys yn achos rhaglenni'r RhAG neu'r RhAC lle y dechreuodd y cyfnod o hyfforddiant cyn 1 Medi 2013.

**Llofnodwyd:**

**Leighton Andrews AC, y Gweinidog Addysg a Sgiliau**

**Un o Weinidogion Cymru**

**Dyddiad:** 8/1/13

# Atodiad

## Y gofynion ar gyfer darparu hyfforddiant cychwynnol athrawon ar gyfer rhaglenni hyfforddiant athrawon ar sail cyflogaeth a weithredir o dan Gynllun 2012

### EBR1: Gofynion mynediad[12]

Rhaid i bob unigolyn sy'n cychwyn ar raglenni hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth:-

**EBR1.1** allu bodloni'r safonau penodedig erbyn diwedd eu rhaglen a meddu ar y nodweddion personol a deallusol priodol i fod yn athrawon;

**EBR1.2** bod wedi cyrraedd safon sy'n cyfateb i radd C yn yr arholiad TGAU mewn Saesneg a mathemateg;

**EBR1.3** os ydynt yn bwriadu ymgymryd â rhaglenni hyfforddiant cynradd neu Gyfnodau Allweddol 2/3, fod wedi cyrraedd safon sy'n cyfateb i radd C yn yr arholiad TGAU mewn pwnc gwyddoniaeth;

**EBR1.4** fodloni ei hun bod yr holl ymgeiswyr yn gallu darllen Saesneg yn effeithiol, ac yn gallu cyfathrebu'n glir ac yn gywir mewn Saesneg llafar ac ysgrifenedig;

**EBR1.5** fodloni ei hun bod yr holl ymgeiswyr wedi cael eu hasesu fel unigolion sydd â sgiliau personol digonol o ran llythrennedd a rhifedd y gellir eu cymhwyso mewn cyd-destun addysgu proffesiynol, i safon sy'n cyfateb i'r gofyniad mynediad sy'n gofyn am gymhwyster sy'n cyfateb i TGAU o leiaf;

**EBR1.6** yn achos y RhAG a'r RhHYR, feddu ar radd gyntaf o sefydliad yn y Deyrnas Unedig neu gymhwyster cyfatebol; ac yn achos y RhAC

(i) wedi cwblhau'n llwyddiannus nid llai na'r hyn sy'n cyfateb i ddwy flynedd o addysg uwch yng Nghymru neu Loegr, neu addysg debyg boed yng Nghymru neu Loegr neu yn rhywle arall[13]; a

(ii) wedi'i dderbyn ar raglen astudiaethau yn arwain at radd gyntaf mewn sefydliad yn y Deyrnas Unedig neu gymhwyster cyfatebol cyn iddynt ddechrau hyfforddi o dan y RhAC.

### EBR2: Hyfforddi ac asesu

---

12 Mae'r gofynion o ran mynediad a dethol yr hyfforddeion yn safonau gofynnol. Mae'n bosibl y bydd gan ddarparwyr HCA ar sail cyflogaeth neu sefydliadau cymeradwy unigol feini prawf ychwanegol y byddant yn dymuno eu defnyddio a gallant wneud hynny ar yr amod bod y safonau gofynnol yn cael eu bodloni.

13 Mae hyn yn cyfateb i 240 o bwyntiau o dan y Cynllun Casglu a Throsglwyddo Credydau (CATS). Er enghraifft, gallai unigolyn sy'n dechrau ar raglen fod wedi cwblhau HND, DipHE, neu'r ddwy flynedd gyntaf o gwrs gradd faglor. Caiff y 240 o bwyntiau eu cydnabod yn ôl disgresiwn y darparwr HCA ar sail cyflogaeth.

Rhaid i bob darparwr HCA achrededig:

**EBR2.1** dylunio cynnwys, strwythur a chyflwyniad yr hyfforddiant i alluogi'r athrawon dan hyfforddiant i ddangos eu bod wedi bodloni'r safonau penodedig a ffurfioli hyn mewn cynllun hyfforddi unigol y cytunir arno gyda'r ysgol lle mae'r hyfforddai i gyflawni'r hyfforddiant;

**EBR2.2** sicrhau bod sgiliau personol yr hyfforddeion o ran llythrennedd a rhifedd yn cael eu hasesu'n rheolaidd ac yn gywir gydol eu cyfnod hyfforddi; ac, ar yr adeg pan gaiff hyfforddeion eu hasesu eu bod wedi bodloni'r Safonau Statws Athro Cymwysedig, fod y safonau a nodir yn EBR1.5 yn cael eu bodloni o hyd;

**EBR 2.3** sicrhau bod cyraeddiadau'r hyfforddeion yn erbyn y safonau penodedig yn cael eu hasesu'n rheolaidd ac yn gywir, a bodloni ei hun bod yr holl hyfforddeion wedi'u hasesu yn unol â'r safonau penodedig cyn cadarnhau i'r corff priodol[14] y gellir eu hysbysu eu bod yn athrawon cymwysedig;

**EBR2.4** sicrhau bod yr hyfforddiant yn cymryd i ystyriaeth anghenion hyfforddi unigol, ac yn arbennig bod:-

(a) hyd y cyfnod hyfforddi arfaethedig yn briodol ar gyfer angen yr hyfforddai am brofiad ymarferol o addysgu;

(b) yr ysgolion lle mae'r hyfforddeion yn cael eu cyflogi neu'n ymgymryd â hyfforddiant ynddynt yn gallu darparu, drwy gydol y rhaglen hyfforddi, yr hyn sy'n angenrheidiol i alluogi'r hyfforddai i fodloni'r safonau penodedig;

**EBR2.5** paratoi'r holl athrawon dan hyfforddiant i addysgu ar draws o leiaf ddau Gyfnod Allweddol olynol[15];

**EBR2.6** sicrhau bod:-

(a) yn achos cais cyntaf i'r RhAG neu'r RhHYR, lle mae'r hyfforddai i'w gyflogi'n amser llawn, nad yw'r rhaglen hyfforddi yn ddim llai na thri mis neu un tymor academaidd a dim mwy nag un flwyddyn academaidd[16];

(b) yn achos cais cyntaf i'r RhAC, lle mae'r hyfforddai i'w gyflogi'n amser llawn, nad yw'r rhaglen hyfforddi yn ddim llai nag un flwyddyn academaidd a dim mwy na dwy flynedd academaidd[17];

---

[14] Adeg cyhoeddi, y corff priodol o dan Reoliadau 2012 yw Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ("y Cyngor"). Caiff Gweinidogion Cymru hefyd roi gwybod i unigolion eu bod yn athrawon cymwysedig ond maen nhw wedi cytuno ar drefniadau gyda'r Cyngor er mwyn i'r Cyngor drafod pob achos heblaw o dan amgylchiadau eithriadol

[15] At ddibenion y Gofyniad hwn, mae "dau gyfnod allweddol" yn cynnwys rhaglenni sy'n ymdrin â'r Cyfnod Sylfaen yn unig; rhaglenni sy'n ymdrin â Chyfnod Allweddol 2 yn unig; a rhaglenni sy'n ymdrin â'r ystod oedran 14-19 (Cyfnod Allweddol 4 ac 16-19).

[16] Mewn achosion lle caiff hyfforddai ei gyflogi yn rhan-amser, dylid ymestyn y cyfnodau hyn ar sail pro-rata. Er enghraifft, os caiff hyfforddai ei gyflogi'n rhan-amser ar gyfradd sy'n cyfateb i hanner cyflogaeth amser llawn, ni ddylai rhaglen hyfforddi RhAG fod yn llai na chwe mis neu ddau dymor academaidd a dim mwy na dwy flynedd academaidd.

(c) yr holl hyfforddeion ar y RhAG, y RhHYR neu'r RhAC yn cael profiad mewn ail ysgol neu ysgol(ion) arall/eraill ategol yn ogystal ag amser yn yr ysgol lle y cânt eu cyflogi;

(d) o leiaf 50 o ddiwrnodau o hyfforddiant ym mhob blwyddyn academaidd[17], ar wahân i'r amserlen addysgu, i ymgymryd â hwy mewn ysgol, gan gynnwys lleoliad mewn ysgol(ion) ar wahân i'r ysgol lle cyflogir yr hyfforddai. Gellid cyfrif hefyd ymarfer addysgu mewn lleoliadau ar wahân i'r ysgol lle y cyflogir yr hyfforddai fel rhan o'r cyfanswm hwn, ar yr amod eu bod yn galluogi'r hyfforddai i weithio at fodloni'r safonau penodedig;

(e) dylai pob hyfforddai ar y RhAG dderbyn yr hyn sydd gyfwerth ag o leiaf 10 o ddyddiau hyfforddi a arweinir gan brifysgol ac a drefnir gan ddarparwyr HCA ar sail cyflogaeth.

**EBR2.7** sicrhau bod pob unigolyn ar raglenni hyfforddiant athrawon ar sail cyflogaeth yn cael hyfforddiant ar addysgu llythrennedd a rhifedd sy'n briodol i'r cyfnod a'r pwnc a astudir, a bod hwn yn rhan anhepgor o'r rhaglen;

**EBR2.8** sicrhau bod pawb yr asesir eu bod yn bodloni'r safonau penodedig yn cael Proffil Dechrau Gyrfa a chymorth i'w lenwi; eu bod yn cael gwybod am y trefniadau statudol[18] ar gyfer ymsefydlu athrawon newydd gymhwyso a'u bod wedi cael cymorth i baratoi ar eu cyfer;

**EBR2.9** sicrhau bod yr hyfforddeion yn gyfarwydd â'r canllawiau cenedlaethol diweddaraf am amddiffyn plant, gan gynnwys adroddiad Comisiynydd Plant Cymru ar gam-drin plant, 'Clywch'; bod cynlluniau hyfforddi'n cynnwys ymwybyddiaeth o sut y gallai camdrinwyr weithredu; a bod canfyddiadau adroddiad 'Clywch' yn rhan o'r cynlluniau hyfforddi unigol.

## EBR3: Rheoli partneriaethau gydag ysgolion

Rhaid i bob darparwr HCA achrededig:

**EBR3.1** weithio mewn partneriaeth gydag ysgolion er mwyn:-

- cynllunio a chyflwyno rhaglenni hyfforddi unigol
- dethol a lleoli hyfforddeion
- asesu hyfforddeion yn erbyn y safonau penodedig.

**EBR3.2** sefydlu cytundebau gydag ysgolion sy'n:-

- cytuno ar rôl pawb sy'n ymwneud â chyflwyno'r cynllun hyfforddi unigol
- cytuno â phawb ar y trefniadau ynglŷn â chyflwyno'r rhaglen hyfforddi unigol

---

[17] Mewn achosion lle y caiff hyfforddai ei gyflogi'n rhan-amser, dylid lleihau'r cyfnodau hyn ar sail pro-rata. Er enghraifft, os caiff hyfforddai ei gyflogi'n rhan-amser ar gyfradd sy'n cyfateb i hanner cyflogaeth amser llawn, dylai rhaglen hyfforddi gynnwys o leiaf 25 o ddiwrnodau o hyfforddiant ym mhob blwyddyn academaidd, ar wahân i'r amserlen addysgu, i ymgymryd â hwy mewn ysgol.

[18] Mae'r trefniadau ymsefydlu statudol ar gyfer athrawon sydd newydd gymhwyso wedi'u pennu yn y Rheoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2005 (OS 2005/1818, fel y'u diwygiwyd).

- ei gwneud yn glir sut y caiff yr adnoddau eu dyrannu i'r rhai sy'n ymwneud â chyflwyno'r cynllun hyfforddi unigol.

**EBR3.3** sicrhau bod y bartneriaeth gyda'r ysgol yn gweithio'n effeithiol a bod yr hyfforddiant yn gydlynol a chyson, gyda pharhad ar draws y cyd-destunau gwahanol y mae'n digwydd ynddynt.

**EBR4: Sicrhau ansawdd**

Rhaid i bob darparwr HCA achrededig:-

**EBR4.1** sicrhau bod gan yr hyfforddeion gyfle i gael y llyfrau, y dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu a'r adnoddau eraill y mae arnynt eu hangen - a'r rheini'n berthnasol i'r ystod oedran a'r pynciau y maent yn hyfforddi i'w haddysgu - er mwyn datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau'r hyfforddeion i'r safonau penodedig man lleiaf;

**EBR4.2** sicrhau bod yna weithdrefnau cymedroli trylwyr mewnol ac annibynnol allanol ar gael i sicrhau bod yr asesiadau'n ddibynadwy ac yn gywir;

**EBR4.3** sicrhau bod materion ansawdd a godir drwy gymedroli mewnol ac allanol yn cael eu harchwilio a'u trafod er mwyn gwella'r hyfforddiant;

**EBR4.4** mynd ati'n drefnus i fonitro a gwerthuso pob agwedd ar y ddarpariaeth er mwyn gwella'i hansawdd. Dylai systemau fod ar waith i:-

- nodi targedau ar gyfer gwella'r ddarpariaeth
- adolygu'r ddarpariaeth yn erbyn y targedau hyn
- pennu pa gamau sydd i'w cymryd i wneud gwelliannau
- sicrhau bod y camau penodedig yn cael eu cymryd, a'u bod yn arwain at welliant.

**EBR4.5** os ydynt yn darparu hyfforddiant yn rheolaidd, meincnodi eu perfformiad dros amser, ac yn erbyn darparwyr tebyg, gan ddefnyddio tystiolaeth wedi'i chynhyrchu'n fewnol ac yn allanol fel sylfaen ar gyfer eu gwaith pennu targedau a'u cynlluniau ar gyfer gwella.